

Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc



Cynulliad Cenedlaethol
Cymru yw'r corff
sy'n cael ei ethol yn
ddemocrataidd i
gynrychioli buddiannau
Cymru a'i phobl, i
ddeddfu ar gyfer Cymru,
i gytuno ar drethi yng
Nghymru, ac i ddwyn
Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn
 unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei
 atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-
 destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn
 Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y
 deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Gwasanaeth Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Mae Gwasanaeth Addysg ac
Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad
Cenedlaethol yn darparu rhaglenni
addysg, wedi'u teilwra, am ddim i
ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid.

Ein nod yw cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad
a'u hannog i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Mae ein rhaglenni dysgu yn cynnig amrywiaeth
o weithgareddau a chyfleoedd i drafod materion
gwleidyddol, naill ai yng nghanolfan ddysgu'r Cynulliad,
sef Siambr Hywel, neu mewn ysgol, coleg, prifysgol neu
sefydliad ieuenctid.



Ymweliadau ar gyfer ysgolion a cholegau

Bydd eich grŵp yn dysgu am rôl Aelod Cynulliad, ac yn datblygu eu sgiliau trafod drwy gymryd rhan mewn dadl mewn siambr bwrpasol.

Bydd disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o sut mae'r Cynulliad yn gweithio ar gyfer pobl Cymru a sut y gallant hwy gyfrannu. Byddwch yn ymweld â'r Senedd a chewch gyfle i ymgysylltu â'ch Aelodau, ond dylech gofio na fydd Aelodau bob amser ar gael oherwydd ymrwymïadau busnes arall.

Mae'r Cynulliad yn cynnig ymweliad addysg ar:

Dydd Mawrth	Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener
10.00-12.00	10.00-12.00	10.00-12.00	Hyblyg
11.00-13.00	11.00-13.00	11.00-13.00	
12.40-14.30*	12.40-14.30*	12.40-14.30*	
14.00-15.30*	14.00-15.30*	14.00-15.30*	

* ymweliadau yn dechrau yn y Senedd.

Mae tocynnau ar gael i ymweld â'r Cyfarfod Llawn yn dilyn eich ymweliad ar ddydd Mawrth a dydd Mercher. Ar gais, fe darperir lle i gael cinio.

Mae hyn yn addas ar gyfer CA2, CA3, CA4, cyngor ysgol, 16+, colegau, myfyrwyr gwleidyddiaeth a grwpiau Bagloriaeth Cymru (uchafswm nifer y disgyblion: 44). Ewch i'n gwefan www.dygynulliad.org/siambr-hywel i weld canlyniadau dysgu ar gyfer pob un o'n sesiynau, gan gynnwys gwybodaeth am gymhorthdal teithio a manylion hanfodol eraill.

Rhaglenni Allgymorth yn eich cymuned

Rydym yn cynnig:

- Rhaglenni allgymorth mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion
- Sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc ar gyfer sefydliadau ieuencid.

Drwy gysylltu pobl ifanc Cymru â gwaith y Cynulliad, rydym yn darparu cyfleoedd i blant, disgyblion, myfyrwyr a phobl ifanc sy'n ymwneud â grwpiau ieuencid (o bob math) ddysgu am wleidyddiaeth Cymru a thrafod materion sy'n effeithio arnynt, drwy amrywiaeth o ddulliau cyfranogol a chynhwysol.

Ein gwaith mewn ysgolion a cholegau

- cyflwyniadau rhyngweithiol, ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 7 a 18 mlwydd oed
- gweithgareddau grŵp a'r cyfle i drafod pynciau a drafodwyd yn ddiweddar gan Aelodau'r Cynulliad
- ymgynghoriadau, lle caiff pobl ifanc y cyfle i roi eu barn i'r Cynulliad ar faterion sy'n effeithio arnynt
- rhaglen Llysgenhadon Cyngor Ysgol
- hyfforddiant i athrawon
- gweithdai wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion eich myfyrwyr
- dau weithdy annibynnol ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru: Cyflwyniad i Ddatganoli a'r Cynulliad Cenedlaethol; a gweithdy sgiliau ar ddibynadwyedd ffynonellau gwahanol o wybodaeth, o Wikipedia i ddatganiadau'r llywodraeth.



Cynllun Llysgenhadon Dy Gynulliad – Cynghorau Ysgol

Ydych chi'n dymuno ehangu'r cyfleoedd ymgysylltu sydd ar gael i'ch cyngor ysgol?

Rhowch eich enw ymlaen i gofrestru fel Llysgenhadon Cyngor Ysgol y Cynulliad Cenedlaethol, a byddwch yn derbyn:

- gweithdy rhad ac am ddim yn eich ysgol, wedi'i deilwra i gyd-fynd â'ch amserlen;
- cyfle i aelodau'r cyngor benderfynu pa faterion gwleidyddol sy'n bwysig iddynt fel pobl ifanc, a dweud eu dweud ar flog Dy Gynulliad Di; a
- chyfleoedd i gyfrannu at ymchwiliadau'r Cynulliad, a'r senedd ieuentid newydd i Gymru fel bod lleisiau eich disgyblion yn cael eu clywed yn y Senedd.

Bydd pob cyngor ysgol sy'n cymryd rhan yn cael tystysgrif a bydd cyfle i'r Cynulliad ymgynghori â hwy ar unrhyw ymchwiliadau yn y dyfodol sy'n effeithio ar bobl ifanc.

Bagloriaeth Cymru

Yn ystod ein rhaglenni allgymorth ac yn y Senedd bydd dysgwyr yn dod yn fwy ymwybodol o faterion gwleidyddol drwy drafodaeth a thrwy ystyried safbwyntiau gwahanol.

Caiff dysgwyr y cyfle i ddysgu am faterion yng Nghymru ac i feddwl yn feirniadol amdanynt. Byddant yn dysgu am rôl y Cynulliad a'u cyfrifoldeb fel dinasyddion Cymru.

Mae papurau briffio ar heriau sgiliau ynghylch democratiaeth, sydd wedi'u cynllunio gan y Tîm Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn y Cynulliad nawr ar gael ar wefan CBAC.

Am ragor o wybodaeth am yr heriau a'r gwahanol fathau o ymweliadau sydd ar gael ewch i'r wefan www.dygynulliad.org

Trefnu Eich Digwyddiad Eich Hun

Gellir archebu Siambr Hywel, y Pierhead a'r Senedd fel lleoliadau ar gyfer eich cynhadledd Dewisiadau Byd Eang. I gael rhagor o ganllawiau, a'r telerau ac amodau, ewch i'n gwefan: www.dygynulliad.org.

Sesiynau ymgysylltu â sefydliadau ieuenctid

Gweithdy 'Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?'

Gall gweithdai Ymgysylltu â Phobl Ifanc, wedi'u teilwra ar gyfer grwpiau ieuenctid, gynnwys trafodaethau ar:

- Beth yw'r Cynulliad a sut mae'n wahanol i Lywodraeth Cymru
- Sut mae penderfyniadau a wneir yn y Cynulliad yn effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru
- Sut gall pobl ifanc fod yn rhan o'r penderfyniadau a wneir gan y Cynulliad
- Sut mae'r Cynulliad yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif
- Pwy sy'n cynrychioli pobl ifanc yn y Cynulliad
- Datblygu cysylltiadau a hwyluso trafodaethau gydag Aelodau'r Cynulliad - Sut i gyfrannu at www.dygynulliad.org

Mae pob gweithdy am ddim, ac ar gael ar ddiwrnodau'r wythnos, gyda'r nos neu dros y penwythnos. Gellir eu cyflwyno mewn cymunedau lleol ym mhob cwr o Gymru, neu yn adeiladau'r Cynulliad ym Mae Caerdydd neu ym Mae Colwyn.

Gellir trefnu sesiynau dilynol, neu drefnu ymweliad i fynd ar daith o amgylch Siambr Hywel a/neu'r Senedd.



‘Cynllun Llysgennad Dy Gynulliad’– Pobl Ifanc

Pedair sesiwn hyfforddiant pedwar awr i addysgu pobl ifanc am waith y Cynulliad, i’w grymuso a’u galluogi i fynd i’w cymunedau lleol i gyflwyno gweithdai ar y Cynulliad i bobl ifanc eraill.

Mae’r hyfforddiant yn cynnwys:

- Gweithdy ‘Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?’
- Sgiliau Hwyluso
- Gwybodaeth am y cyfryngau cymdeithasol a’r wefan
- Copiau o’r adnoddau sydd ar gael a chymorth gan staff y Cynulliad



Hyfforddi'r Hyfforddwr – Gweithwyr Proffesiynol

Sesiwn hyfforddiant 3 awr i addysgu gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc am waith y Cynulliad, i'w grymuso a'u galluogi i fynd i'w cymunedau lleol i gyflwyno gweithdai ar y Cynulliad i bobl ifanc. Mae modd cynnig yr hyfforddiant penodol hwn fel pwyntiau tuag at Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus hefyd.

Mae'r hyfforddiant yn cynnwys:

- Gweithdy 'Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?'
- Y broses Ddatganoli yng Nghymru
- Gwybodaeth am y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan
- Copiau o'r adnoddau sydd ar gael, gwybodaeth fonitro a chymorth gan staff y Cynulliad

Mae'r holl waith hwn am ddim, ac ar gael ar ddiwrnodau'r wythnos, gyda'r nos neu dros y penwythnos. Gellir ei gyflwyno mewn cymunedau lleol ym mhob cwr o Gymru, neu yn adeiladau'r Cynulliad ym Mae Caerdydd neu ym Mae Colwyn. I gael sgwrs am y gwaith yma, cysylltwch â Kelly Harris, ein Swyddog Ymgysylltu â Phobl Ifanc.

 **0300 200 6283**

 **Kelly.Harris@cynulliad.cymru**

Cymryd rhan

Mae gennym wefan bwrpasol ar gyfer pobl ifanc i'w dysgu am waith y Cynulliad a sut i gymryd rhan. Mae gennym dudalennau pwrpasol hefyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith ac am yr adnoddau sydd ar gael gennym.

 www.dygynulliad.org

Dilynwch ein cyfrifon cymdeithasol a'n cylchlythyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith.

 [@dygynulliad](https://twitter.com/dygynulliad)

 [/dygynulliad](https://facebook.com/dygynulliad)

I drefnu ymweliad, cysylltwch â:

 **0300 200 6565**